# papur priordy



**A gwnewch y pethau bychain**
**A welsoch gennyf i;**
**A minnau mwy y cerddaf**
**I ffordd ein tadau ni.**

*Gweler yr erthygl y tu mewn*

**Rhifyn 375**
**PAPUR MAWRTH 2024**

## GAIR GAN EIN GWEINIDOG

# Cymreictod


***DAETH*** Dydd Gŵyl Dewi. Bu'r wythnos hon yn gyfle i ddiolch am ein Cenedl, ei hiaith a'i diwylliant, ac i ddathlu'n Cymreictod. Beth yw Cymreictod? Wel, teimlo ein bod ni'n Gymry, a theimlo cariad tuag at Gymru fel gwlad?

Mae nifer o bethau sy'n gysylltiedig â Chymreictod. Un ohonynt yw'r Anthem Genedlaethol*, 'Mae Hen wlad fy nhadau yn annwyl i mi, gwlad beirdd a chantorion, enwogion o fri'.* Clywyd yr anthen ynw codi'r to yn Stadiwm y Prinicipality yn ddiweddar wrth i dîm rygbi Cymru herio'r timoedd ym mhencampwriaeth y chwe gwlad. Bu'r datganiad o'r anthem yn un emosiynol iawn i'r tîm ifanc.

Yn ôl traddodiad, mae bathodyn yn cynnwys tair pluen mewn coron aur yn cael ei ddefnyddio fel un o symbolau cenedlaethol Cymru. Gan taw bathodyn personol Tywysog Cymru yw hwn, bu cryn ddadlau ynglŷn â'i ddefnyddio fel symbol cenedlaethol. Mae Undeb Rygbi Cymru yn defnyddio fersiwn o arwyddlun y tair pluen ar grysau rygbi cenedlaethol. Beth yw eich barn chi am hyn tybed?



Symbol arall o Gymreictod ydy'r faner genedlaethol, sef y Ddraig Goch. Aeth 65 mlynedd heibio ers y datganiad taw draig goch ar gefndir gwyn a gwyrdd oedd baner genedlaethol Cymru – ar 22 Chwefror 1959 y digwyddodd hyn. Dim ond Cymru a Bhutan sydd â llun draig ar eu baneri.



Bu rhaid aros tan y 1990au i weld poblogeiddio baner Dewi Sant. Ond wedi dweud hynny, mae lliwiau'r faner, sef du ac aur wedi eu cysylltu â Dewi Sant ers blynyddoedd lawer. Mae lliwiau'r faner wedi eu cysylltu â Choleg Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mabwysiadwyd du ac aur yn y flwyddyn 1888 yn lliwiau Coleg y Drindod a Choleg Llambed. Rydyn ni sy'n byw yn Abergwili yn gweld lliwiau Dewi Sant yn ddyddiol, uwchben drws ffrynt Tŷ'r Esgob, yn rhan o arfbais Esgobaeth Tyddewi, gan taw yma mae swyddfeydd yr Esgobaeth ynghyd â chartref yr Esgob.

***OND*** o bob symbol, y symbol mwyaf cyfarwydd yw'r genhinen Bedr, neu'r genhinen. Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi cymryd rhan yng Ngŵyl Y Daffodil yn nhref Caerfyrddin eleni a diolch i Gyngor y Dref am y weledigaeth. Ond nid digon yw gweld y genhinen Bedr yn harddu'r dref. Mae gwirionedd mawr yn yr hen ddywediad, 'Gwisg genhinen yn dy gap, a gwisg hi yn dy galon'. Tra ydym yn gwerthfawrogi'r holl symboliaeth liwgar ac arwyddocaol sydd gennym, onid yn ein calon y mae ein Cymreictod ar ddiwedd y dydd?



**GWEDDÏWN**



*'Arglwyddi, frodyr a chwiorydd, byddwch lawen a chedwch eich ffydd a'ch cred, a gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch gennyf fi.'*

Yng nghlyw ac yn ysbryd neges Dewi Sant, cynorthwya ni, ein Tad, i ddathlu ein gŵyl genedlaethol yn llawen ein hysbryd, yn gadarn ein ffydd ac yn barod i gyflawni'r pethau bychain sy'n bwysig yn dy olwg di, ac er mwyn dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist.

**AMEN**

## DARLLENIADUR

| Mis Mawrth | Darlleniad |
|---|---|
| **Wythnos 1** | **Ioan 2: 13-22** |
| **Wythnos 2**<br>**Sul y Fam** | **Ioan 3: 14-21** |
| **Wythnos 3** | **Ioan 12: 20-23** |
| **Yr Wythnos Fawr** | **Darlleniadau wedi'u cynnwys ym Myfyrdod yr Wythnos Fawr. Gweler Tudalen 21** |

**CWRDD CHWARTER – HEOL AWST**
**14 Mawrth 2024 – 10.30 /1.30**



**Cyfarfod y Prynhawn**

**Y Parchedig Robin Samuel**

**Apêl Ffynhonnau Byw**

**DIOLCH YN FAWR**

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

**JOIHN A CARYS GREEN**
**RHIAN EVANS**
**ELUNED MADDOX**
**a**
**GWYNN AC ANN BOWYER**



**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**

**PANED A CHÂN**



**Ar gyfer trigolion Plas-y-dderwen a Dol-y-felin**
**yn Festri Cana – Prynhawn Mercher 1 MaI 2024 am 2.30**




**PANED A SGWRS**



**Bore Mercher - 10.30 - Gwesty'r Llwyn Iorwg**

**27 Mawrth 2024**

**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr**



## TUDALEN BLAEN

***CYFANSODDODD*** T Gwynn Jones a W S Gwynn Williams *Gantata* ar y cyd yn dwyn y teitl *Dewi Sant,* y geiriau gan y naill a'r gerddoriaeth gan y llall. Cyflwynwyd y gwaith am y tro cyntaf pan ddarlledwyd gan y BBC ar 3 Mawrth 1942. A hithau'n fis Gŵyl ein Nawddsant, priodol yw dyfynnu darn byr o'r Cantata:



| **BENDITH DDEWI** | |
|---|---|
| A Dewi pan orffennodd ef<br>Ei bregeth olaf un,<br>Y rhoes ei fendith annwyl ef,<br>Ar blant ei wlad ei hun;<br>A'i lais, oedd fwyn a thyner iawn,<br>A glywai pawb yn glir;<br>A phery hithau'r fendith hon<br>Hyd heddiw yn y tir: | |
| 'O frodyr a chwiorydd<br>Boch lawen yn eich dydd,<br>A'ch cred i gyd a gadwoch,<br>A hardd y ffynno'ch ffydd. | A gwnewch y pethau bychain<br>A welsoch gennyf i;<br>A minnau mwy y cerddaf<br>I ffordd ein tadau ni. |
| Boed grymus fyth y trigoch<br>Yng ngwlad eich tadau chwi;<br>Yn iach i chwi'n dragywydd,<br>Mwy, nid ymwelwn ni.' | |

Ganed T Gwynn Jones yn y Gwyndy Uchaf, fferm a hefyd dafarndy, ym Metws-yn-Rhos, yn yr hen Sir Ddinbych ar 10 Hydref 1871. Ychydig o addysg ffurfiol a gafodd ac aeth i fyd newyddiaduriaeth yn gynnar iawn. Bu'n gweithio gyda sawl papur, gan gynnwys *Baner ac Amserau Cymru* a'r *Herald Gymraeg*. Yna, bu'n gweithio fel catalogydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn 1909 cyn cael ei benodi'n ddarlithydd yn y Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth ym 1913 a dod i Gadair Gregynog mewn Llenyddiaeth Gymraeg ym

1919 hyd nes iddo ymddeol ym 1937.  Meddyliwch o ddifrif am ei gamp ryfeddol - yn dringo'n uchel yn y byd academaidd ac yntau, fel y dywed Derec Llwyd Morgan, heb gael *'hanner awr o hyfforddiant colegol'*.

Gwnaeth T Gwynn Jones gyfraniad pwysig i lenyddiaeth Cymru, ysgolheictod Cymreig ac astudiaethau llên Gwerin.

Roedd yn adnabyddus iawn fel bardd a chyfansoddodd doreth o gerddi, caeth a rhydd. Mae rhai o'i gerddi ymhlith campweithiau'r Gymraeg. Ym 1902 - y flwyddyn y dechreuodd ychwanegu Gwynn at ei enw bedydd - yr enillodd Gadair yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mangor am ei awdl *'Ymadawiad Arthur'.* Mae'r awdl hon yn drobwynt yn hanes llenyddiaeth Gymraeg.  Mae'n awdl wahanol iawn i awdlau hirwyntog ac anfarddonol y ganrif o'r blaen gan ei bod yn adrodd stori yn hytrach na chynnwys popeth ar destun mewn un cyfansoddiad hir, heb fawr o gyswllt rhwng y gwahanol ddarnau, gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion mawreddog a chymhleth. Hon oedd y gyntaf o gyfres o gerddi mawr a luniodd T Gwynn Jones ar y gynghanedd, naill ai ar y mesurau traddodiadol neu ar fesurau newydd wedi'u seilio ar yr hen rai.  Enillodd y Gadair eto yn Eisteddfod Genedlaethol Llundain ym 1909, sef can mlynedd yn ôl i'r flwyddyn hon, gyda *Gwlad y Bryniau*. Ymhlith ei gyfrolau o gerddi mae *Caniadau* (1934).  Cafwyd argraffiad newydd o'r gyfrol hon ym 1992 gyda rhagymadrodd gan Derec Llwyd Morgan.

Ysgrifennodd ddrama a nofelau. Roedd yn feirniad llenyddol a chyhoeddodd weithiau beirniadol ac ysgolheigaidd o bwys. Roedd hefyd yn gyfieithydd dawnus a throsodd weithiau o'r Almaeneg, Groeg, Gwyddeleg a Saesneg i'r Gymraeg. Lluniodd gofiannau i Thomas Gee ac Emrys ap Iwan – dau a gafodd ddylanwad mawr arno. Cyhoeddodd ddwy gyfrol o waith y bardd Tudur Aled, un a fu farw yng Nghaerfyrddin a'i gladdu yng Nghwrt y Brodyr. Ar ben hynny, ysgrifennodd filoedd o golofnau newyddiadurol dros y blynyddoedd ac roedd yn un o'r llythyrwyr mwyaf a fu yng Nghymru.

Roedd T Gwynn Jones yn heddychwr mawr ac yn wrthwynebydd cryf i'r Rhyfel Byd Cyntaf.  Mae'r Dr Gwynfor Evans yn adrodd hanesyn amdano yn y gyfrol *Heddychiaeth Gristnogol yng Nghymru (Cymdeithas y Cymod 1991*) yn gadael y cwrdd yn gynnar un Sul yn y Tabernacl, Aberystwyth oherwydd ei ddaliadau dros heddwch. Meddai: *'Un nos Sul offrymodd gweinidog y Tabernacl weddi a oedd, yn ôl T. Gwynn Jones, yn ddim gwell nag apêl barbariad i dduw ei lwyth am*

*fuddugoliaeth i'w luoedd rhyfel. Pan godai'r gynulleidfa i ganu'r emyn nesaf cerddodd T. Gwynn Jones a'i deulu allan o'r cwrdd.'*

Mae pump o emynau ganddo yn *Caneuon Ffydd,* pob un ohonynt yn gyfieithiadau ar wahân i un, sef *Pan fo'n blynyddoedd ni'n byrhau* (Rhif 173)  Mae'r emyn hwn ymhlith yr hanner cant o'r goreuon yn y gyfrol *Emynau Cymru (Y Lolfa 2001)* a olygwyd gan Gwynn ac Ifor ap Gwilym.  Mae gan T Gwynn Jones hefyd gyfieithiadau nodedig o emynau yn y gyfrol *Llyfr Emynau Catholig Cymraeg.*

***BU*** farw T Gwynn Jones yn Aberystwyth ar 7 Mawrth 1949, **sef 75 o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn**, a'i gladdu yn y fynwent oddi ar Heol Llanbadarn. Wrth grisialu cyfraniad y gŵr amlochrog hwn, dywed ei gofiannydd David Jenkins: *'Y mae cyfanswm ei gyhoeddiadau yn rhyfeddol ond y gwaddol cyfoethocaf yw ei farddoniaeth.'*




**AR Y WE:    www. priordy.org *(yn cynnwys Papur Priordy)***

**CORNEL**

**CODI GWÊN!**

Cafodd dyn oedd yn sownd ar ynys am 5 mlynedd ei achub o'r diwedd. Sylwodd y dyn oedd yn ei achub ei fod wedi adeiladu tri chwt. Gofynnodd iddo beth oedd eu pwrpas.

Dywedodd y dyn, “Un oedd fy nhŷ, ac un oedd fy eglwys.”


Dywedodd yr achubwr, “Iawn, mae hynny'n gwneud synnwyr, ond beth am y 3ydd cwt?” Atebodd y dyn, “Dyna’r eglwys roeddwn i’n arfer mynd iddi cyn i mi newid enwad.” (!!!)

**Dydd Sul 23 Mehefin 2024**



## COFIO SYMLRWYDD BYWYD DEWI

Mae nifer helaeth o ddelweddau wedi'u gwneud o Ddewi mewn eglwysi yng Nghymru ers canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn aml, mae Dewi wedi'i ddewis ar y cyd â seintiau lleol neu esgobaethol mewn eglwysi ar draws Cymru. Mae eglwysi sydd wedi'u cysegru i Ddewi i'w gweld ar draws llawer o dde Cymru ac i mewn i Swydd Henffordd, ar wahân i'r rhai sy'n cael eu hawlio gan



esgobaeth Llandaf yn y rhan fwyaf o Forgannwg a Mynwy. Fel arfer, mae'r ffigyrau o Ddewi'n sefyll mewn gwisgoedd esgobaethol gyda cholomen wrth ei glust. Caiff ei ddarlunio'n aml gyda barf hir – ond nid bob tro.

Ond mae gan Christopher Whall ffigur o Ddewi sy'n wahanol i unrhyw ddelweddau eraill o'r sant.  Mae'n sefyll ochr yn ochr â San Siôr yn y ddelwedd hon. Tra bo San Siôr yn sefyll gyda'i gleddyf ar y ddraig mae Dewi Sant yn dal pladur gyda chennin yn tyfu wrth ei draed. Mae hefyd gennin Pedr o gwmpas ymylon y ddelwedd ohono. Er bod meitr uwchben y ffigur, nid fel mynach neu esgob y caiff Dewi ei ddarlunio ond fel gŵr ifanc gyda chrwyn anifeiliaid wedi'u taenu dros ei ysgwyddau.




Mae'r ddelwedd hon o Ddewi i'w gweld yn Eglwys Gwyndaf Sant yn Llanwnda yn Esgobaeth Bangor, tua hanner ffordd rhwng Llandudno yn y gogledd ddwyrain ac Ynys Enlli yn y de orllewin.

Comisiynwyd y ffenestr gan Syr Robert Armstrong-Jones (1857-1943),



Plas Dinas, ger Bontnewydd, Caernarfon a'i frodyr er cof am frawd arall, Thomas Jones, a gollwyd yn India.

Yn fab i'r **Parchedig Thomas Jones**, gweinidog gyda'r Annibynwyr, Eisteddfa, Cricieth, a'i briod Jane Elizabeth, roedd Syr Robert yn feddyg ac arbenigwr ar anhwylderau'r ymennydd ac yn dad-cu i'r Arglwydd Snowdon, a briododd y Dywysoges Margaret, chwaer y Frenhines Elizabeth II.



Crëwyd y ffenestr, tua 1922, gan, **Christopher Whitworth Whall (1849 –1924)** arlunydd gwydr lliw a mab i reithor Thurning yn Swydd Northampton.
Mae rhywun yn rhyw gynhesu at y ddelwedd hon o Ddewi o waith Whall – delwedd heb fod iddi fawr o rwysg na rhodres.

Dywedir fod Dewi o dras brenhinol ond syml oedd ei fywyd. Mynach oedd e ac roedd yn byw fel rhan o gymuned fynachaidd, a oedd yn adnabyddus am fyw bywyd syml a gweithio'n galed. Yn ôl y sôn roedd Dewi a'i gyd-fynachod yn tynnu'r aradr eu hunain wrth aredig.

Byddai'n crwydro Cymru'n pregethu am Iesu a Duw.  Bara a pherlysiau oedd ei fwyd a dim ond dŵr a yfai. Byddwch lawen a chadwch y ffydd. Gwnewch y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf i oedd ei neges.

Ie, geiriau syml Dewi a delwedd syml Wall ohono sy'n taro wrth i ni ddathlu gŵyl a mis ein nawddsant unwaith eto eleni.

**GWASANAETH PASG CARTREF PLAS Y DDERWEN**

**Prynhawn Gwener – 15 Mawrth 2024 – 2.30 o'r gloch**
***gyda'n* Gweinidog**

**Croeso i bawb**



# GŴYL Y DAFFODIL



## RHAI DIGWYDDIADAU

**Fel rhan o Ŵyl y Daffodil eleni bydd Rhaeadr o Ddaffodiliau dros Lwy Garu Gymreig ar waliau'r castell wrth Sgwâr Nott yng nghanol ein tref. Mae'r arddangosfa hon yn rhan o nifer o weithgareddau celfyddydol diwylliannol sy'n cael eu cynnal yn yr ardal ac o'i chwmpas.**

**Gweler Gwefan Cyngor Tref Caerfyrddin am y rhaglen lawn**

**Mae'r Ŵyl yn parhau tan Sadwrn y Daffodil ar 23 Mawrth pan fydd y Grŵp Gwerin Rhyngwladol Calan yn perfformio'n fyw yn y Clos Mawr am 2 y prynhawn.**

**Dyma rai pigion eraill i chi:**

**Nos Wener 15 Mawrth 2024 – 7 – Yr Egin**
**Talwrn y Daffodil**
**Tudur Dylan Jones a Mererid Hopwood yn trafod gwaith**
**Timau'r Ysgol Farddol, Y Priordy a**
**Chwm Gwendraeth**

**Nos Lun 18 Mawrth 2024 – 7 - Parc yr Esgob Abergwili**
**Sgwrs ar Iolo Morganwg gan Aled Evans**

**Nos Wener 22 Mawrth – 7 – Theatr yr Halliwell**
**Cyngerdd i godi arian i Ysgolion Cymraeg Patagonia**

**Blas yn unig yw'r rhain o'r holl weithgareddau sydd ar waith**

**Osian Hayes…**

**Trip PIP Hwrê!**




Ar fore’r wythfed ar ugain o Ionawr 2024 aeth grŵp o Bobl Ifanc y Priordy ar daith bach draw i gaffi ‘HMY’ jyst rownd y cornel o Gapel Y Priordy. Cyn mynd, dim ond un cwestiwn oedd ar wefusau pob un, sef, “Pam oedd camera ar y balconi yn Y Priordy’r bore hwnnw?”.
Wel, daeth yr ateb, mai ffilmio ar gyfer sgwrs Beti-Wyn am y Grawys oedd yn digwydd, a dyna’r rheswm am ein trip ni hefyd. Cafodd pawb ddewis o ddiod a chacen - a hynny am ddeg o’r gloch y bore, cofiwch! Criw bach dethol ohonom ni oedd yno, gan gynnwys Syfi, Trystan, Iestyn, Ethan, Gwenan, Elliw ac Osian. Wrth fwyta ein cacennau, yn gymysgedd o frownies melys a sbwngis buom yn trafod beth fyddai pob un ohonom yn fodlon rhoi’r gorau iddo dros gyfnod y Grawys.



Nawr, daw hi ddim yn syndod i chi mai ar y gofyn cyntaf - brocoli, moron a bresych oedd y prif eitemau y byddai pobl yn fodlon rhoi’r gorau iddynt! Ond wedi esbonio mai rhywbeth neis, blasus yn gofyn am rywfaint o aberth oedd rhaid mynd hebddo, er mwyn ein hatgoffa ni am aberth Crist, daeth atebion ychydig yn fwy synhwyrol

ac arferol i'r fei. Roedd siocled a losin yn ddewis amlwg gyda jam a chreision yn gyffredin hefyd, a hyd yn oed iogwrt, yn ddewis gan un! Ein bwriad nawr yw cyfrannu'r bwyd y byddwn ni ddim yn ei fwyta dros gyfnod y Grawys i'r banc bwyd.







***DIOLCH*** BW am y syniad, a diolch i'r bobl ifanc am eu cwmni!

**Y GYMDEITHAS**
**Dydd Mercher 6 Mawrth 2024**
**Clwb y Cwins – 12.30**



**Dathlu Gŵyl Dewi**

**CAWL A CHWIS**
**gyda**
**TUDUR DYLAN JONES**
**Tocynnau: £10**



Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org

**DYDD GWEDDI'R BYD**

**Heol Awst**

**Dydd Gwener, 1 Mawrth 2024**

**Oedfa Gymraeg am 2**

# GŴYL Y DAFFODIL YN Y PRIORDY





## Y GYMDEITHAS

## DROS BEN LLESTRI!

Am ddylanwad mae zoom wedi' i gael ar bob rhan o'n cymdeithas erbyn hyn. O'n safbwynt ni yn y Priordy mae'n golygu y gallwn drefnu cyfarfodydd mwy amrywiol a denu siaradwyr o bob rhan o Gymru a thu hwnt, na fyddent, o bosib, yn gallu bod gyda ni yn y cnawd bob amser. A thrwy gyfrwng zoom cawsom gwmni 'r Parchedig Aled Davies o Chwilog yng Ngwynedd i'n diddanu yng nghyfarfod mis Chwefror.

Yn wreiddiol o Sir Gâr, mae Aled yn weinidog bro sy'n gyfrifol am chwe



chapel. Mae'n adnabyddus fel cyfarwyddwr y Cyngor Ysgolion Sul a Chyhoeddiadau'r Gair. Mae'n gyfrifol am drefnu presenoldeb Cytûn ar Faes yr Eisteddfod a'r Sioe Frenhinol, ac mae ar fwrdd y cylchgrawn Cristion. Fe hefyd sy'n dylunio a gosod Papur Bro Eifionydd, Y Ffynnon. Mae Aled yn trefnu llu o weithgareddau'n lleol gyda'r capeli'n cymryd rhan flaenllaw ynddyn nhw, gan gynnwys nifer o gymdeithasau llenyddol. Ond tybed faint ohonom sy'n sylweddoli'i fod hefyd yn gasglwr llestri o bob math ac yn arbenigwr arnynt?

Sut dechreuodd y diddordeb meddech chi? Wel, byddai'n mynd gyda'i dad a oedd yn arwerthwr o Lanllwni i Stoke on Trent, ardal y crochendai, i brynu gwrthodedigion neu rejects i'w gwerthu yn y mart. Mae wedi cynnal a meithrin y diddordeb dros y blynyddoedd nes bod ganddo gasgliad sylweddol o blatiau, cwpanau, jygiau, addurniadau a ffigyrau o bob lliw a llun. Yr hyn sy'n hynod o ddiddorol yw bod gan bob un o'r darnau ei hanes a'i stori ei hunan a chawsom glywed nifer ohonynt. O ddiddordeb arbennig iddo yw'r darnau hynny sy'n Gymreig eu naws neu sydd â tharddiad Cristnogol neu Grefyddol. Mae'r rheiny'n werthfawr iawn yn ei olwg.



Agoriad llygad i lawer ohonom hefyd oedd clywed am hanes nifer y crochendai a fu ac sy'n parhau yng Nghymru a'r darnau a'r arddulliau sy'n nodweddu pob un ohonynt. Canolbwyntiwyd ar

Grochenwaith Portmeirion a sefydlwyd yn 1960 gan Susan Williams-Ellis, merch Clough Williams-Ellis, i gynhyrchu cofroddion crochenwaith ar gyfer siop pentref Portmeirion. Mae'r crochewaith erbyn hyn yn fyd enwog wrth gwrs. Ond nid anghofiwyd am stôr o grochendai eraill ac o ddiddordeb arbennig i ni oedd Crochendy A & M Griffiths, Felin-gwm a gwaith Harvey Thomas y mae gan nifer ohonom enghreifftiau o'i blatiau. Ychydig llai ohonom, efallai, sydd gan ei ffigur portread luster o William Morgan, cyfieithydd y Beibl Cymraeg cyntaf yn 1588 - darn nodedig iawn.

Symbylodd ein siaradwr gwadd gryn dipyn o drafodaeth sy'n arwydd sicr o'r diddordeb a grewyd a braf oedd clywed am rai llestri nodedig sydd gan rhai o'n haelodau.

Gellir mynd ymlaen ac ymlaen am y noson hon gan mai mor gyfoethog oedd y cynnwys. Diolch i'n Gweindog am y rhannau arweiniol ac am yr holl drefniadau. Diolch yn arbennig i'n siaradwr gwadd sy'n dal i gasglu llestri, gyda llaw! Wn i ddim a ddaw rhagor o depotau te ai peidio ond mae'n cadw golwg yn arbennig am bortreadau o Christmas Evans a John Elias yng nghyfres Swydd Stafford sy'n eitemau mor brin! Diweddwyd noson hyfryd drwy gydadrodd y Weddi Apostolaidd.

**CWRDD DIACONIAID A BLAENORIAID AC YMDDIRIEDOLWYR GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN**

***Nos Fercher 20 Mawrth 2024 – Bancyfelin – 7.30***

**Y TABERNACL CAERFYRDDIN**

**Nos Iau Cablyd 28 Mawrth 2024**
**Oedfa Gymun yn Y Tabernacl, Caerfyrddin am 7 gyda'r Parchedig Peter Cutts**

**Bore Gwener y Groglith 29 Mawrth 2024**
**Oedfa Undebol yn Y Tabernacl am 10.30 gyda'r Parchedig Peter Cutts**



















# Ifanc@Priordy


## Gŵyl Dewi

**Diolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth Gŵyl Dewi yn Heol Awst! Ardderchog bawb!**


## Pôs Y Pasg

**Fedrwch chi helpu Beti-Wyn i ddod o hyd i'r Wy Pasg?**







**Lliwiwch yr Wyau Pasg!**



## Pôs Y Pasg

**Fedrwch chi gysylltu'r dotiau? Mae Iesu'n fyw a'r bedd yn wag!**





# Chwilotair Dewi Sant

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| T | F | F | Y | D | D | E | P | S | I | M | N | P | M |
| H | N | G | A | R | T | H | B | L | H | C | I | E | Y |
| C | I | D | W | N | N | M | E | L | P | M | E | T | H |
| E | U | A | A | Y | E | W | I | A | A | F | C | H | S |
| I | U | S | W | D | R | O | B | W | U | F | H | A | Y |
| U | C | E | U | H | T | T | L | E | L | E | C | U | C |
| T | A | I | H | W | N | C | H | N | I | A | A | B | T |
| G | D | W | T | C | M | U | E | Y | N | Y | N | Y | S |
| O | C | E | E | L | O | A | P | N | W | D | Y | C | B |
| G | B | D | G | O | F | W | W | A | S | M | M | H | L |
| W | O | G | E | C | W | B | C | M | T | A | N | A | H |
| H | N | N | R | H | N | Y | N | O | N | E | C | I | P |
| W | N | L | P | B | L | N | U | P | H | F | A | N | T |
| G | A | F | T | N | P | N | E | M | O | L | O | C | N |

GWYRTH
NON
CLOCH
SANT
PREGETHU
MYNACH
DEWI
PAULINWS
FFYDD
PETHAUBYCHAIN
LLAWEN
COLOMEN
BEIBL

## Calendr mis Mawrth

| | | |
|---|---|---|
| Mawrth 3 | Ysgol Sul | PIP i aros yn yr oedfa |
| Mawrth 10 | Oedfa Deulu Sul y Fam yng Nghanolfan yr Halliwel | Oedfa deulu Sul y Fam |
| Mawrth 17 | Ymweld ac Erw Hir | Ymweld ag Erw Hir |
| Mawrth 24 | Gwyliau Pasg | Gwyliau Pasg |
| Mawrth 31 | Gwyliau Pasg | Gwyliau Pasg |

Hwyl fawr tan tro nesaf! Beti Wyn

## MWYNHAU YN YR YSGOL SUL















## Yr Wythnos Fawr



## Anogaeth i oedi ac ymdawelu

**Ar un olwg, does dim byd arbennig am 'Yr Wythnos Fawr' sef yr wythnos sy'n arwain i fyny tuag at y Pasg. Nid yw Iesu na'i apostolion wedi ein gorchymyn i roi sylw arbennig i'r dyddiau hyn. Nid yw nodi'r Wythnos Sanctaidd yn orfodol, ond mae'n gyfle. Mae'n gyfle i gerdded gyda'r eglwys, drwy gydol amser a thrwy'r byd, wrth iddi gerdded gyda Iesu drwy'r wythnos bwysicaf yn hanes y byd. Mae'n gyfle i ganolbwyntio ein meddyliau ar y gwirioneddau pwysig ac oesol, a cheisio dwysáu ein serchiadau tuag atynt.**

**Sul y Blodau:**
**Dioddefaint yr Arglwydd Iesu – Eseia 50:4-9a**
**Yr Ymdaith i mewn i Jerwsalem – Marc 11:1-11**

**Llun:**
**Yr Eneinio ym Methania – Ioan 12:1-11**

**Mawrth:**
**Groegiaid yn ceisio Iesu - Ioan 12: 20-36**

**Mercher:**
**Iesu'n Rhagfynegi ei Fradychu – Ioan 13:21-32**

**Iau Cablyd:**
**Golchi Traed y Disgyblion - Ioan 13:1-17**

**Gwener y Groglith:**
**Croeshoelio Iesu - Ioan 19:17-27**

**Sadwrn:**
**Claddu Iesu: Mathew 27:57-66**

**Sul Y Pasg:**
**Atgyfodiad Iesu – Ioan 20-1-18**

**Rwyf yn eich annog i arafu a blasu'r adnodau hyn. Myfyriwch ar y gwirioneddau sydd ynddynt. Dewch o hyd i le cyfforddus i eistedd mewn tawelwch. Ystyriwch dreulio ychydig funudau mewn gweddi ar ôl ichi ddarllen a throi'r gwirioneddau hyn tuag at Dduw yn addoliad i Grist. Mewn cymdeithas a byd cythryblus, mae'r Wythnos Sanctaidd yn ein hannog i oedi a myfyrio, i nodi'n ofalus bob dydd a pheidio â gadael i'r Wythnos Fawr hon hedfan heibio i ni fel pob wythnos arall.**

BWJ

**BWJ**

**Papur Priordy'n holi'r Dr Myfanwy Jones, Cyfarwyddwr Mentrau Iaith Cymru**



**PP: Rych chi wedi dechrau yn eich swydd newydd ers rhai misoedd erbyn hyn, Myfanwy. Allwch chi ddisgrifio i ni'n fras beth yn union yw'ch dyletswyddau?**
**MJ**: *Dw i'n gyfarwyddwr Mentrau Iaith Cymru (MIC) ers mis Medi. Mae MIC yn gorff ymbarél sy'n darparu cefnogaeth ganolog i'r rhwydwaith o Fentrau, a'm prif rôl i yw hyrwyddo'u gwaith a rhoi llais cenedlaethol iddyn nhw.*

**PP: Pa mor hanfodol yw'r Mentrau Iaith yn eich barn chi?**
**MJ**: Y Mentrau Iaith yw'r cyrff sy'n cefnogi defnydd y Gymraeg yn gymunedol. Mae pawb yn gwybod pa mor hanfodol yw defnydd iaith er mwyn i'r iaith barhau fel iaith fyw, ac mae'r Mentrau yn gyrff sy'n ymateb i anghenion ieithyddol eu hardaloedd, yn llenwi bylchau mewn darpariaeth i sicrhau bod y Gymraeg yn fywiog ac yn berthnasol i gymaint o bobl o fewn eu hardal ag sy'n bosibl. Mae eu natur gymunedol a'u hatebolrwydd i'w hardal ddaearyddol yn eu gwneud yn gwbl hanfodol i barhad y Gymraeg, yn fy marn i, a hyn mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg mewn dwysedd cymharol uchel ac mewn ardaloedd lle mae niferoedd uchel ond dwysedd is.

**PP**: **Rych chi'n brofiadol iawn ym maes cynllunio ieithyddol. Allwch chi roi enghraifft neu ddwy i ni o'r hyn a wnaethoch yn eich swyddi blaenorol?**
**MJ**: Dw i wedi bod yn gweithio yn y maes ers i mi orffen fy PhD yn 2001. Fi oedd swyddog cyntaf Menter Iaith Abertawe ac fe ges i flas yn creu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg o dan adain y criw bywiog yn Nhŷ Tawe. Ar ôl cyfnod ym Mwrdd yr Iaith yn arwain yr Uned Ieuenctid, a chyfnod yn gweithio'n llawrydd wrth fagu'r plant, es i Gyngor Sir Gâr i fod yn swyddog polisi iaith. Yno, fi oedd yn gyfrifol am y Fforwm Iaith Sirol a Strategaeth Hybu'r Sir. Fe fuom ni'n gwneud gwaith arloesol yno'n dylanwadu ar ddatblygiad economaidd mawr, Pentre' Awel, Llanelli er enghraifft, gan geisio sicrhau bod y Gymraeg yn cael sylw teg gan y datblygwyr. Mae ceisio sicrhau perthnasedd y Gymraeg mewn meysydd lle mae'r Gymraeg yn ystyriaeth ymylol ar y gorau'n dalcen caled, ond yn hanfodol i ddyfodol yr iaith

**PP**: **Nid y Gymraeg a'r Saesneg yw'r unig ieithoedd chi'n eu siarad Myfanwy…**
**MJ**: Na. Nes i astudio Cymraeg, Saesneg, Ffrangeg ac Almaeneg i lefel A, ac fe wnes i radd gyfun mewn Almaeneg a Ffrangeg wedyn. Gallech chi ddyfalu mod i'n hoff iawn o ieithoedd... ac o siarad! Ond llenyddiaeth oedd fy niléit a dweud y gwir, ac fe wnes i PhD oedd yn edrych ar y thema o wallgofrwydd mewn gwaith theatr Almaeneg!

**PP**: **Cawsoch eich codi yng nghefn gwlad Ceredigion ym mhentref Lledrod. Faint o ddylanwad fu'r ardal hon arnoch?**
**MJ**: Wrth gwrs, mae'r mangre lle rydych chi'n cael eich magu yn ddylanwad enfawr arnoch chi, ond efallai, i mi, roedd e'n fwy o ddylanwad fyth fod fy rhieni wedi *dewis* ein magu ni yno, gan mai yn flwydd a hanner y symudais i Gymru, o Loegr. Roedd fy rhieni'n byw yn Lloegr, er o dras Gwyddelig a Chymreig ac wedi dewis symud i Gymru a'n magu ni yng nghefn gwlad, drwy gyfrwng y Gymraeg. Dw i'n credu bod hyn wedi gwneud i fi wirioneddol ystyried a gwerthfawrogi'r hyn oedd bro fy mebyd yn ei gynnig. Roedd ysgol fach Lledrod yn fendigedig, y capel a'r bobl yn ddifyr a chynnes. Nes i fwynhau awyrgylch fywiog ysgol uwchradd Tregaron, ac roedden i'n elwa'n fawr o glwb jiwdo fy nhad yn Nhregaron, y clwb rhedeg yn Aberystwyth, y cwmni theatr ieuenctid yn Felin-fach, a'r gigs Cymraeg ar hyd a lled Ceredigion. A dw i'n meddwl fod tirwedd a harddwch Lledrod wedi golygu mai person cefn gwlad fydda i fyth.




**PP: Mae'ch gŵr yn hanu o gefndir di-Gymraeg.**
**MJ**: *Ydy. Mae Rhys yn dod o Gwm Rhymni, a'i rieni ill dau yn ddi-Gymraeg. Roedd mam Rhys wedi bod ym Mhrifysgol Bangor ac er na ddysgodd hi Gymraeg, dw i'n meddwl mai yno y plannwyd yr hedyn bod modd magu dy blant i fod yn siaradwyr Cymraeg. Mae hi wedi brwydro'n galed dros y blynyddoedd dros addysg Gymraeg, ac mae Rhys a'i chwaer a phlant ei gyfnither nawr i gyd yn siaradwyr Cymraeg brwd.*




**PP**: **Mae yntau mewn gwaith cwbl wahanol i chi!**

**MJ**: *Ydy. Mae Rhys yn fargyfreithiwr, ac yn bennaeth ar Siambrau Angel yn Abertawe. Does dim byd yn debyg am ein gwaith, ond mae Rhys yr un mor frwd dros y Gymraeg â fi, felly mae e'n deall pwysigrwydd fy ngwaith. Rydyn ni yn sgwrsio am y gwaith weithiau, ond weithiau mae natur gwaith Rhys yn golygu nad yw'n bwnc i'w drafod ym mhob achlysur. Mae'r hyn mae e'n delio gydag e o ddydd i ddydd yn gallu bod yn reit depressing a dweud y gwir.*



**PP**: **Mae'n amlwg fod bywyd capel yn bwysig i chi a'r teulu, Myfanwy.**
**MJ**: *Ydy. Mae crefydd wastad wedi bod yn rhan fawr o fy mywyd i, gyda mam yn Gatholiges a dad yn Fethodist. Roedden ni'n mynychu'r capel a'r eglwys pan oeddem yn blant a dw i wedi parhau i fynychu'r capel pan alla i i byth ers hynny. Lle dw i'n lwcus iawn yw bod Rhys hefyd yn gweld gwerth ac yn mwynhau'r hyn y mae bod yn aelod o gapel yn ei gynnig. Mae e'n gwerthfawrogi'r myfyrdodau, y crefydda, ond yn bennaf oll, cymuned capel y Priordy. Ac, er gwaetha'u bod yn eu harddegau, mae'r merched yn ei werthfawrogi hefyd.*

**PP**: **Mae chwaraeon hefyd yn bwysig i chi a'r teulu – yn enwedig jiwdo a gymnasteg. Soniwch ychydig am hyn.**
**MJ**: *Gellid dweud mod i wastad wedi bod yn obssessed gyda chwaraeon! Jiwdo oedd fy mhrif gamp pan oeddwn i'n ifanc a dw i wedi rhedeg clwb jiwdo byth ers yn 16 oed! Ar hyn o bryd, mae fy nghlwb jiwdo i blant yn Nhre-fach, ac mae rhai o aelodau bach y capel yn mynychu. Rygbi a bocsio oedd campau Rhys, ac mae'r merched wedi torri eu cwysau eu hunain - Marged gyda'i gymnasteg a Gwenlli ac Anna wedi llusgo'r teulu'n anfoddol i hoffi pêl-droed! Rydyn ni i gyd yn mwynhau chwaraeon; nofio, cerdded, rhedeg, dringo - unrhyw beth sy'n rhoi gwên ar y wyneb ac yn helpu rhywun i deimlo'n fyw! Mae'r merched wedi cael cyfleodd gwych gyda'u campau yn barod - mae Marged yn mynd i gystadlu am yr ail waith yn Florida mewn rhai wythnosau. Mae Gwenlli'n chwarae i dîm dan 19 y Swans ac Anna yw'r unig ferch sy'n chwarae yn academi pêl-droed tref Caerfyrddin*!



**PP**: **I gloi, Myfanwy, beth wnewch chi a'r teulu i ymlacio yn eich oriau hamdden prin?**

**MJ**: Rydyn ni'n hoff iawn o weld ein teulu estynedig - rydyn ni'n agos iawn at fy nheulu i, mam a dad, 4 brawd a chwaer a llwyth o gefndryd cyntaf, a hefyd teulu Rhys - ei fam, ei wncwl a theulu bach ei chwaer. Ni'n dwli mynd ar wyliau - i Iwerddon a Ffrainc yn bennaf, ond hefyd teithio ychydig ar hyd Ewrop.  Mae Rhys a fi yn hoffi cerdded a ni i gyd yn hoffi cymdeithasu, ond nid bob amser gyda'n gilydd.

***Myfanwy a Rhys a'r merched***



**Diolch yn fawr iawn i chi am ateb y cwestiynau, Myfanwy, a phob dymuniad da i chi fel teulu i'r dyfodol**

Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?
Trowch at:  cyfundeb.com





***YN DYMUNO CYFAMODI?***


**DENNIS JONES**
**YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI**

**Croeso i chi gysylltu ag e!**

**DIOLCH YN FAWR**



**Diolch i Beti-Wyn, Tim ac Osian Hayes, Myfanwy Jones ac Angharad Wyn am y lluniau'r mis hwn.**



***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS***
***Y PRIORDY***
*Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da*

**Lleuwen**

**Emynau Coll y Werin**

**22 Ebrill 2024 – 7 o'r gloch**

**Capel y Priordy**



BORE COFFI CYMORTH CRISTNOGOL
DYDD SADWRN 20 EBRILL 2024 – CAPEL WESLE




**Peter Hughes Griffiths…**



# Llwyd@60

Fe ddaeth pedwar llyfr i law fel anrhegion dros y Nadolig, a does dim yn rhoi mwy o bleser i mi yn ystod yr Ŵyl a thros gyfnod y Calan nag ymlacio a darllen llyfr. Cefais ddau hunangofiant sef *Yn Blwmp ac yn blaen – Cefin Roberts, a Breuddwyd Roc a Rôl? Cleif Harpwood.* Y ddau lyfr arall oedd *Hiwmor Tri Chardi Llengar* a *Llwyd@60.* Crynodeb o fywydau a hiwmor Moc Rogers, Tegwyn Jones a Hywel Teifi sy'n dwyn sylw'r awdur Geraint H Jenkins yn ei lyfr am y tri Chardi Llengar. Pleser pur oedd darllen am ddoniau arbennig y tri gŵr ffraeth a dawnus hyn.




Ond oherwydd y cyswllt arbennig gydag ardal Caerfyrddin fe wnes i fwynhau darllen llyfr y diweddar R Alun Evans am enillwyr prif wobr llefaru'r Eisteddfod Genedlaethol sef Y Llwyd o'r Bryn, a hynny dros y chwe deg mlynedd diwethaf. Mae'r cyn-enillwyr i gyd yn sôn am eu hatgofion amrywiol wrth gystadlu a down i wybod llawer mwy am bob unigolyn ynghyd â'u lluniau.



Gweinidog Y Priordy ar y pryd, Y Parch T James Jones enillodd yn Aberafan yn 1966. Mae Jim Parcnest yn nodi wedi iddo gyhoeddi teitl ei ddarn ar y llwyfan… 'fedrwn i ddim cofio'r gair cyntaf. Doedd dim amdani ond cerdded o'r llwyfan. Roeddwn ar orchymyn i fy nhroed dde i symud pan gofiais y llinell gyntaf...' Yn ei feirniadaeth wedyn soniodd y beirniad W H Roberts eu bod wedi hoffi'r saib ddramatig hynod effeithiol ar y dechrau!

Ei frawd Aled Gwyn enillodd y flwyddyn wedyn yn Y Bala ac yntau'n weinidog yn Henllan Amgoed Sir Gaerfyrddin. Un o fy ffrindiau yn Ysgol Sul Capel Closygraig, Dre-fach Felindre enillodd yn Y Fflint yn 1969 sef Ann Winston (Ann Pash wedi hynny) gyda'n gweinidog y Parchedig Michael L Thomas yn ei hyfforddi. Alun Lloyd o Landybie a thad Lowri Matthews Rhodfa Dewi Sant enillodd yn 1972.

Nid oeddwn wedi sylweddoli tan i mi ddarllen am yr enillwyr fod cymaint ohonyn nhw â chysylltiadau mor agos ag Ysgol Bro Myrddin. Fe enillodd




Yvonne Davies (Francis wedyn) yn 1977 ac Alma Roberts yn 1985 a'r ddwy yn athrawon yn yr ysgol. Bu Yvonne yn Bennaeth y Gymraeg ym Mro Myrddin am ugain mlynedd ac fe gofiwn yn annwyl amdani a'i chyfraniad diflino. Ar ôl bod yn athrawes yn Ysgol Bro Myrddin bu Alma Roberts yn Weinidog yr Efengyl ym mhentref Penygroes ger Rhydaman.

A beth am gyn-ddisgyblion Ysgol Bro Myrddin?  Ann Davies, Llethrmoel Cynwyl Elfed enillodd ym Mro Maesteg yn 1987 gyda Mrs Ann Evans, gwraig Gareth Evans Pennaeth yr ysgol yn ei hyfforddi. Yna yn 1985 yn Eisteddfod Bro Colwyn Carys Wyn Davies (Carys Llwynpiod, Peniel) enillodd y fedal ac mae hi'n diolch i Mrs Margaret Matthews am ei hyfforddi. Mandy James o



Fancffosfelen ac un o gyn-ddisgyblion Bro Myrddin enillodd yn Llanelli yn y flwyddyn 2000 ac yna Carys Bowen o Benybont, Tre-lech yn Ynys Môn 2017.

**Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn** yw un o brif wobrau'r Eisteddfod Genedlaethol a dyma ddiweddariad ac argraffiad newydd yn 2023 o gyfrol a gyhoeddwyd gyntaf yn 2008. Hwn oedd y cyhoeddiad olaf o waith y Parch R Alun Evans mae'n siŵr cyn ei farwolaeth y llynedd.



**CYMDEITHAS CAPEL HEOL AWST**

**CINIO GŴYL DEWI**

**Caffi Beca, Efailwen**

**Dydd Mawrth 19 Mawrth 2024 - 12 erbyn 12.15**

**Pris: £20 (yn cynnwys 2 gwrs gyda te/coffi / cost y bws)**

**Siaradwr Gwadd – Hefin Wyn 'Twm Carnabwth a Brwydr Beca'**

**Bws yn gadael Heol y Prior (ger Parc Waun Dew) am 10.45 a Heol Awst am 11**

**Croeso i bawb. Enwau i Beti-Wyn ar y daflen yn y cyntedd mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda)**

Estynnir croeso cynnes i chi ymuno â ni ar gyfer

# Cwrdd Sefydlu'r

## Parchg Beti-Wyn James BD, MTh

Gofalaeth Y Priordy, Caerfyrddin, Cana a Bancyfelin

yn Weinidog i Iesu Grist

yn

Eglwysi Elim, Ffynnon-ddrain a Heol Awst

**Nos Wener, 12 Ebrill 2024**
**am 6.00 o'r gloch**
**yng Nghapel Heol Awst**

Ar ran Heol Awst:
Nigel George,
2 Parc Cilddewi,
Tre-Ioan,
Caerfyrddin,
SA31 3HP

Ar ran Elim:
Roland Jeremy
37 Dôl Y Dderwen,
Llangain
Caerfyrddin
SA33 5BE

**SEFYDLIR GOFALAETH NEWYDD**
**TRWY'R UNIAD HWN**
**'GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN'**

## CROESO CYNNES I BAWB

Darperir lluniaeth wedi'r oedfa

## RHAI EGLWYSI LEDLED Y BYD WEDI'U HENWI AR ÔL DEWI SANT

| | |
|---|---|
|  |  |
| Eglwys Esgobol Dewi Sant, Austin, Tecsas | Eglwys Eingl Efengylaidd Dewi Sant, Brantford, Canada |
|  |  |
| Eglwys Esgobol Dewi Sant, Yarmouth, Massachusetts | Eglwys Dewi Sant, Glasgow, Yr Alban |
|  |  |
| Eglwys Anglicanaidd Dewi Sant, Burnside, De Awstralia | Eglwys Dewi Sant, Naas, Cildara, Iwerddon |

# DYLETSWYDDAU

| ROTA YMWELWYR – MAWRTH / EBRILL |
|---|
| Sulwyn a Glenys Thomas - June Thomas a Heather Williams<br>Mwynwen Jones a Llinos Roberts |

## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Mawrth | | Ebrill | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Emlyn Schiavone | Huw Jones | Catrin Heledd Jones | Huw Michael |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mawrth | 3 | Rachel Davies | Ebrill | 7 | |
| | 10 | | | 14 | Llinos Williams |
| | 17 | Margaret Evans | | 21 | |
| | 24 | | | 28 | Catrin Haf Williams |
| | 31 | Ann Thomas | | | |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mawrth | 3 | Bore | Teulu Angharad Wyn |
| *Sul y Pasg* | 31 | Bore | Carys Morgans a Luned Thomas |
| Ebrill | 7 | Bore | Catrin Heledd a Jayne Jones |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mawrth | 3 | Carys Morgans | Ebrill | 7 | Emlyn Schiavone |
| *Sul y Fam* | 10 | Y Mamau | | 14 | Y Plant |
| | 17 | Philip Jones | | 21 | Jayne Woods |
| *Sul y Blodau* | 24 | Gill Owens | | 28 | Miriam Wyrwoll |
| *Sul y Pasg* | 31 | Luned V Thomas | | | |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mawrth | Alison Parsons | Ebrill | Elinor W Reynolds |

**Tybed pa mor gyfarwydd ydych chi â’r gwyrthiau yn fersiwn beibl.net?!!!!**

**Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu! Pob lwc!!**



*Ioan 9: 1-7*

***Iesu'n iacháu dyn wedi ei eni'n ddall***

Un diwrnod roedd Iesu'n mynd heibio, a gwelodd ddyn oedd wedi bod yn --- ers iddo gael ei --- Gofynnodd y disgyblion iddo, “Rabbi, pwy wnaeth
---- i achosi i'r dyn yma gael ei eni'n ddall - fe ei hun, neu ei rieni?” “Dim ei bechod e na phechod ei rieni sy'n gyfrifol.” meddai Iesu, “Digwyddodd er ---- i allu Duw gael ei arddangos yn ei fywyd. Tra mae hi'n dal yn ---- dydd, rhaid i ni wneud gwaith yr un sydd wedi fy anfon i. Mae'r --- yn dod, pan fydd neb yn gallu gweithio. Tra dw i yn y byd, fi ydy golau'r ---.”  Ar ôl dweud hyn, poerodd ar lawr a gwneud mwd allan o'r ------, ac wedyn ei rwbio ar ------ y dyn dall. Yna meddai wrtho, “Dos i ------ i Bwll Siloam” (enw sy'n golygu ‘Anfonwyd’). Felly aeth y dyn i ymolchi, a phan ddaeth yn ôl roedd yn gallu -----!

***Atebion ar dudalen 36***

## Y ddiweddar Irene Williams

Bu farw Mrs Irene Williams yn dawel ar 29 Ionawr 2024 yng Nghartref Erw Hir, Caerfyrddin lle derbyniodd ofal tyner dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yn 102 mlwydd oed.

Cofiwn am Mrs Williams fel gwraig a gyfrannodd yn helaeth iawn i nifer o gylchoedd yn ystod ei bywyd hir, gan gynnwys bod yn gefn mawr i'w phriod y diweddar Barchg Athro Cyril Williams yn ystod cyfnod ei weinidogaeth yn Y Priordy.

Roedd Mrs Williams yn egnïol o blaid yr Efengyl, ac yn heddychwraig o argyhoeddiad. Bu'n hynod gefnogol i waith Cymorth Cristnogol a'r Aelwyd, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd y bu'n byw yn LLanbed. Roedd yn un a groesawodd nifer fawr o ymwelwyr tramor.

Symudodd nôl i Gaerfyrddin wedi marwolaeth ei phriod annwyl ac ail-afael â theulu'r ffydd yma yn Y Priordy. Roedd wrth ei bodd yn darllen Papur Priordy bob mis ac fe gyfrannodd erthygl ardderchog iddo adeg dathlu 150 mlynedd yr eglwys lle rhannodd ei hatgofion am ei chyfnod yn yr eglwys a'r teulu yn byw yn yr Elmwydd (mans y capel).

Gwerthfawrogai'n fawr ymweliadau gan yr aelodau, ac roedd sgwrsio, darllen a gwrando ar Radio Cymru drwy'r dydd yn cadw ei meddwl yn effro a'i barn yn gadarn. Roedd ei chonsýrn am y byd cythryblus hwn yn gonsýrn iddi ac yn destun gweddi hyd ddiwedd ei hoes.

Roedd ei hangladd yn breifat yn ôl ei dymuniad. Daeth y teulu ynghyd i Amlosgfa Llanelli fore Sadwrn 17 Chwefror i oedfa i ddiolch am ei bywyd a'i gwaith. Llywyddwyd yr oedfa gan ei gweinidog a thalwyd teyrngedau hyfryd iddi gan ei mab, Eirian a chan y Parchg Guto Prys ap Gwynfor. Arweiniwyd mewn gweddi gan Y Parch Tom Evans.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Eirian, Martin a'u teuluoedd a chariwn Ann, y ferch fach a gollwyd ym mlodau ei dyddiau, yn dyner yn ein calonnau.

Dywedodd Iesu am y wraig a dywalltodd yr enaint gwerthfawr ar draed Iesu 'yr hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth.'

Gwyddom i sicrwydd mai felly oedd hi yn hanes Irene Williams hefyd.

Coffa da am wraig arbennig iawn.

**Ein Gweinidog**

# RHWYDWAITH

***EIN*** cofion cynnes at bawb sy’n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy’n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i’w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn am Meinir Jones y dyddiau hyn. Pob dymuniad da i chi i gyd.



Bu Gofalaeth y Priordy, Cana a Bancyfelin yn destun sylw ar **Dechrau Canu, Dechrau Canmol** ar **S4C** ar drothwy Tymor y Grawys. Yng Nhalendr yr Eglwys y Grawys yw’r cyfnod o 40 diwrnod cyn y Pasg pan fydd Cristnogion yn paratoi ar gyfer yr Ŵyl drwy fyfyrio ac weithiau ymprydio. Esboniodd Beti-Wyn yr her a osodwyd ar gyfer aelodau ein Gofalaeth, sef ymatal rhag bwyta rhywbeth sy’n hoff gennym a’i gyflwyno yn lle hynny i Fanc Bwyd Eglwys Crist. Mae’n Gweinidog yn gosod esiampl drwy beidio â bwyta bara dros gyfnod y Grawys. Gwelsom fel mae dau deulu eisoes yn ymateb i’r her, sef Teulu Angharad Wyn a’r plant, Greta, Miriam a Noa, a theulu Carys Morgans a’r plant,Tomos, Ifan a Cadi. Bydd digon felly o sôs coch, pasta a reis yn dod i’r Banc Bwyd o ganlyniad! Pwysleisiodd ein Gweinidog hefyd werth ysbrydol ein hymgyrch a’r cyfle gwerthfawr a gawn i ystyried sut ryn ni eisiau byw ein bywydau. Pwysigrwydd y Grawys oedd testun sgwrs PIP (Pobl Ifainc y Priordy) pan aethant, gyda Tim Hayes, am awr fach o gymdeithasu a sgwrsio mewn caffi yn y dref.

Bydd darllenwyr **Cwlwm** wedi sylwi ar gyfweliad mewn rhifyn diweddar â Pat Jones, arweinydd Côr Eifionydd, sydd wedi dychwelyd i Sir Gâr gyda’i gŵr i fyw yng Nghaerfyrddin. Bu’n gyfnod prysur i’r teulu ond mae’n sôn am y croeso mae wedi’i dderbyn yn y Priordy ar y Sul. Bu’r Côr yn cymryd rhan yng Ngŵyl Cerddoriaeth Gymreig Llundain yng Nghapel Cymraeg Canol Llundain a gyplyswyd â dathlu pen-blwydd y cyfansoddwr Syr Karl Jenkins yn 80 oed a chlywyd Pat yn sôn amdano ar **Heno** ar **S4C**.

***AR*** **Bwrw Golwg** ar **Radio Cymru** bu Catrin Haf Williams yn trafod gwrth Semitiaeth gyda’r cyflwynydd Gwenfair Griffith.

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Ebrill i’n Gweinidog neu Alun Charles**

## CYMDYMDEIMLAD

**Estynnwn ein cydymdeimlad ag Adrian a Gloria Evans ar golli modryb Adrian yn ddiweddar, sef Betty Evans o Ffos-y-ffin. Cydymdeimlwn â'r teulu cyfan yn eu profedigaeth a'u hiraeth.**

**Cydymdeimlwn â Peter a Miriam Wyrwoll ar golli modryb Miriam yn ddiweddar, sef Eirwen Gibbon, Trefechan gynt. Cofiwn am y teulu cyfan yn eu colled.**

## CYFRES NEWYDD O CHWE SESIWN YN ARCHWILIO GWAHANOL AGWEDDAU AR FYWYD EGLWYSIG


***dan gynllun***

**Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

**Dau sesiwn yn weddill**

| Dyddiad | Pwnc | Arweinydd |
|---|---|---|
| 04.03.24 | Gwaith Plant ac Ieuenctid | Parchedig Owain Davies |
| 18.03.24 | Gwedd Ddigidol Eglwys | Rhodri Darcy |

**Mae gwahoddiad cynnes i bawb i ddilyn y sesiynau hyn drwy fynd i'w Hwb Hyfforddi Lleol. Mae sawl hwb wedi'u lleoli o gwmpas y wlad. Hwb Hyfforddi Lleol ein Cyfundeb ni yw Festri Capel Cana, Bancyfelin.**




**MAE ANN THOMAS WEDI RHOI I FYNY YFED COFFI**
**MAE'R GWEINIDOG WEDI RHOI I FYNY BWYTA BARA**
**BETH AMDANOCH CHI?**

# Y SULIADUR

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mawrth** | **3** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | **C** |
| ***Sul y Fam*** | **10** | ***Bore*** | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog yng Nghanolfan Halliwell, Coleg Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | |
| | **17** | ***Bore*** | Y Parchedig Dylan Rhys Parry | |
| | **24** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | |
| ***Sul y Pasg*** | **31** | ***Bore***<br>***P'nawn*** | Oedfa'r Ofalaeth yn y Priordy gyda'n Gweinidog<br>Dathlu'r Pasg yn y gymuned ym Mancyfelin. Gadael mynedfa'r Wenallt am 3. Cario'r Groes drwy'r pentref, Oedfa i ddilyn yn y capel a the a byns y Grog | **C** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ebrill** | **7** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | **C** |
| | **14** | ***Bore*** | Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog | |
| | **21** | ***Bore*** | Y Parchedig Dyfrig Rees | |
| | **28** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | |

| **CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant OD – Oedfa Deulu EW - Erw Hir** | | | | | | | | |
| **Mawrth** | | | | | **Ebrill** | | | |
| **3** | **10** | **17** | **24** | **31** | **7** | **14** | **21** | **28** |
| ✓ | **OD** | **EH** | **-** | **-** | ✓ | **CP** | ✓ | ✓ |

**Rhyddheir oedfa ddigidol bob Sul**

| **CWIS Y GWYRTHIAU<br>beibl.net<br>ATEBION** | | | |
|---|---|---|---|
| **1** | **ddall** | **6** | **nos** |
| **2** | **eni** | **7** | **byd** |
| **3** | **bechu** | **8** | **lygaid** |
| **4** | **mwyn** | **9** | **ymolchi** |
| **5** | **olau** | **10** | **gweld** |
| **Gallwch hefyd droi at beibl.net – Luc 2: 1-11** | | | |